21.07.2022

Cathryn Ings
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880450

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Croeso cynhesaf Ceredigion i'r Eisteddfod Genedlaethol

Hir yw pob ymaros - ac mae ardal Tregaron wedi aros yn hirach na'r arfer i Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2022 eu cyrraedd.

Ond mae'r amser wedi dod ac mae'r Brifwyl yn ôl yn ei hanterth. Bydd S4C yn darlledu'r holl gyffro trwy gydol yr wythnos ar S4C, S4C Clic a BBC iPlayer.

Bydd y dathlu'n dechrau gyda rhaglen arbennig, **Rhagflas Yr Eisteddfod** nos Iau 28 Gorffennaf am 8.00. Bydd y gantores leol Rhian Lois yn nghanol ei chymuned a phobl Ceredigion wrth edrych ymlaen at yr Eisteddfod Genedlaethol gyntaf mewn cae ers tair blynedd!

Byddwn yn clywed gan y bobl sydd wrth galon y trefnu - y paratoadau ar gyfer y sioe agoriadol, y cymeriadau lleol sy'n edrych ymlaen, y bandiau fydd ar lwyfan y Maes a chynlluniau newydd Maes B ar gyfer y to ifanc.

Rhwng Sadwrn 30 Gorffennaf a Sadwrn 6 Awst, bydd S4C yn darlledu'n fyw o'r Eisteddfod bob bore ac yn parhau drwy'r dydd gyda sylw llawn i brif seremonïau'r dydd; boed yn gadair, yn goron, yn fedal neu'n dlws. Bob nos, bydd **Mwy o'r Maes** yn dod a blas o'r Eisteddfod gyda'r nos ac yn crynhoi uchafbwyntiau'r dydd.

Eleni, mae'r tîm cyflwyno, sy'n darlledu o'r maes ar gyfer S4C yn cynnwys Eleri Siôn, Tudur Owen, Heledd Cynwal, Mirain Iwerydd, Nia Roberts, Dot Davies a Dylan Ebenezer.

Fe fydd S4C yn cynnig **Sedd yn y Pafiliwn** i'r rhai sydd ddim yn gallu mynychu'r Eisteddfod yn Nhregaron. Bydd darllediadau byw ac yn ddi-dor o'r llwyfan ar gael ar S4C Clic ac o fewn Categori Cymru ar BBC iPlayer. Bydd is-deitlau Saesneg ar gael.

A bydd digonedd o gyfle i brofi'r holl arlwy tu hwnt i'r cystadlu ar S4C. Bydd cyfle i wylio **Lloergan**, cyngerdd agoriadol yn fyw o'r Pafiliwn ar nos Wener 29 Gorffennaf am 8.00. Gyda sgript wreiddiol gan Fflur Dafydd a'r gerddoriaeth gan Griff Lynch a Lewys Wyn, mae Lloergan yn sioe seryddol wedi ei leoli yn Ystrad Fflur.

Gyda pherfformiadau gan Sam Ebenezer, Lynwen Haf Roberts, Gruffydd Rhys Davies, Miri Llwyd a Chôr yr Eisteddfod, mae Lloergan yn adrodd stori gofodwraig Lleuwen Jones sydd wedi gwireddu breuddwyd oes o gael bod y ferch gyntaf ar y lleuad. Angharad Lee yw'r cyfarwyddwr artistig.

O'r Pafiliwn, nos Sul, 31 Gorffennaf am 7.00, bydd y **Gymanfa Ganu**. Delyth Hopkins Evans fydd yn arwain y canu mawl gydag Iestyn Evans wrth yr organ. Cyfle i fwynhau emynau cyfarwydd gan gynnwys yr emyn-donau Builth, Preseli, Rhosymedre, Aberystwyth, Rheidol ac un o ffefrynnau'r genedl - Pantyfedwen. Bydd perfformiad gan Gôr yr Eisteddfod o waith D Christmas Evans, yr anthem 'Dyn a aned o wraig', a hefyd bydd cyfle i gwrdd ag Arweinydd Cymru a'r Byd, Ann Griffith. Ceir hefyd y datganiad cyntaf o emyn-dôn fuddugol yr Eisteddfod.

Bydd y camerâu yn y Babell Lên hefyd, gyda rhaglen uchafbwyntiau bob nos ar S4C. A gydol yr wythnos bydd criw'r rhaglen gylchgrawn **Heno** ar y Maes yn darlledu'n fyw nos Lun, Mawrth ac Iau am 7.00. Hefyd bydd rhaglen **Newyddion S4C** yn dod a'r straeon newyddion diweddara o'r maes bob dydd.

Bydd Maggi Noggi yn crwydo'r Maes gyda chynnwys direidus o antics y dydd ar gael ar y gwefannau cymdeithasol – a rhaglen arbennig yr wythnos ganlynol.

I gloi'r wythnos lawn bydd dwy raglen arbennig sef **Uchafbwyntiau'r Eisteddfod 2022** a rhaglen **Uchafbwyntiau Y Babell Lên** ar nos Sul, 7 Awst.

Caiff nifer o gyngherddau a digwyddiadau eraill yr Ŵyl o'r Pafiliwn, y Tŷ Gwerin a Llwyfan y Maes eu darlledu ar S4C wedi'r wythnos gan gynnwys rhaglen arbennig o Maes B a Mas ar y Maes.

Ar gyfer y miloedd fydd yn mynychu'r Maes eleni, mae pafiliwn S4C yn fwrlwm o weithgareddau a gwybodaeth am gyfresi diweddaraf y sianel.

Bob dydd fe fydd dwy Sioe **Cyw** gyda - Huw, Elin, Griff, Cati a Ben Dant a dwy sioe **Stwnsh** gydag Owain, Leah, Jack a Jed. Ar Ddydd Sul fe fydd digwyddiad **Sgwrs Dan y Lloer** gydag Elin Fflur a Rhian Lois. Ar ddydd Llun fe fydd digwyddiad **Cefn Gwlad: Cofio Dai Jones** gydag Ifan Jones Evans a Mari Lovgreen.

Dydd Mawrth fe fydd cyfle i ymuno â sgwrs gyda chast **Pobol y Cwm** ac ar ddydd Mercher yn Sinemaes fydd rhagflas o'r ffilm arswyd **Gwledd** a sgwrs gyda rhai o'r cast a chriw. Dydd Iau bydd cyfle cael cipolwg o ddrama newydd S4C yn yr Hydref sef **Dal y Mellt** a sesiwn gyda Priya Hall yn holi Maggi Noggi.

Pêl droed fydd yn cael y sylw ar ddydd Gwener gyda digwyddiad **Sgorio** gyda Dylan Ebenezer yn holi Ian Gwyn Hughes o Gymdeithas Pêl-droed Cymru a'r sylwebydd Gwennan Harries am daith tîm pêl-droed Cymru i Gwpan y Byd FIFA 2022 yn Qatar.

Meddai Elen Rhys, Comisiynydd S4C yr Eisteddfod: "Mae'n sbesial o beth cael bod yng nghanol a chalon yr Ŵyl eleni. Bydd rhywbeth i bawb ac draws llwyfannau S4C - ac mae'n fraint cael dathlu gyda'r Eisteddfod Genedlaethol, criw gweithgar Sir Geredigion a phawb ynghlwm gyda'r Eisteddfod i fwynhau holl amrywiaeth yr Ŵyl i Gymru a thu hwnt."

**Eisteddfod Ceredigion 2022**
**Rhagflas yr Eisteddfod - Nos Iau 28 Gorffennaf 8.00**
**Cyngerdd Agoriadol: Lloergan - Nos Wener 29 Gorffennaf, 8.00**
**Oedfa'r Bore - Dydd Sul 31 Gorffennaf, 11.00**
**Y Gymanfa Ganu - Dydd Sul 31 Gorffennaf, 7.00**
**Heno o'r Eisteddfod - Nos Lun, Mawrth ac Iau, Awst 1, 2 a 4 am 7.00**
**Darllediadau fyw o'r Eisteddfod bob bore ac yn parhau drwy'r dydd gyda sylw llawn i brif seremonïau'r dydd. Bob nos, bydd Mwy o'r Maes yn crynhoi a thrafod uchafbwyntiau'r dydd a rhaglen o uchafbwyntiau o'r Babell Lên. - Sadwrn 30 Gorffennaf a Sadwrn 6 Awst**
**Sedd yn y Pafiliwn - Darllediadau fyw ac yn ddi-dor o'r llwyfan ar gael ar S4C Clic ac o fewn Categori Cymru ar BBC iPlayer - Sadwrn 30 Gorffennaf i Sadwrn 6 Awst.**
**Uchafbwyntiau Eisteddfod 2022 - Nos Sul 7 Awst 7.30**
**Uchafbwyntiau y Babell Lên - Nos Sul 7 Awst 9.00**

**Isdeitlau Saesneg**
**Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad BBC Cymru Wales ar gyfer S4C**

21.07.2022

Cathryn Ings
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880450

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Ceredigion offers warmest welcome to National Eisteddfod

Good things come to those who wait – and Tregaron has had to wait longer than usual for the Ceredigion National Eisteddfod 2022 to reach them.

But the time has come and the festival is back with a vengeance. S4C will be covering all the excitement throughout the week on S4C, S4C Clic and BBC iPlayer.

The celebrations begin with a special programme **Rhagflas Yr Eisteddfod** (Eisteddfod Preview) on Thursday, 28 July at 8.00pm. Local singer Rhian Lois will be at the heart of her community and the people of Ceredigion as she looks ahead to the first National Eisteddfod in a field for three years!

We will hear from the people at the heart of the organisation work; the preparations for the opening show; the local characters who are looking forward; the bands who will be appearing on the Maes stage and new plans for Maes B for the youngsters.

Between Saturday, 30 July and Saturday, August 6 S4C will be broadcasting live from the Eisteddfod every morning and will continue throughout the day giving full coverage of the day's main ceremonies be it chair, crown, medal or trophy. Every night **Mwy o'r Maes** (More from the Maes) brings a taste of the Eisteddfod at night time and a compilation of the day's highlights.

This year, the team presenting from the Maes for S4C will include Eleri Siôn, Tudur Owen, Heledd Cynwal, Mirain Iwerydd, Nia Roberts, Dot Davies and Dylan Ebenezer.

S4C will be offering a seat in the pavilion with **Sedd yn y Pafiliwn** for those who can't attend the Eisteddfod in Tregaron. Live and continuous coverage from the stage will be available on S4C Clic and in the Wales category on BBC iPlayer. English sub-titles will be available.

And there will be plenty of opportunity to enjoy coverage away from the competitions. There will be a chance to view **Lloergan** - the opening concert from the Pavilion on S4C on Friday, 29 July at 8.00pm. With an original script by Fflur Dafydd and music by Griff Lynch and Lewys Wyn, Lloergan is an astronomical show based in Strata Florida.

With performances by Sam Ebenezer, Lynwen Haf Roberts, Gruffydd Rhys Davies, Miri Llwyd and the Eisteddfod Choir, Lloergan tells the tale of spacewoman Lleuwen Jones who has realised her dream of becoming the first woman on the moon. Angharad Lee is the artistic director.

The **Gymanfa Ganu** (congregational religious service) will be broadcast from the Pavilion on Sunday, 31 July at 7.00pm. Delyth Hopkins Evans will be leading the singing with Iestyn Evans at the organ. Viewers can enjoy familiar hymns including Builth, Preseli, Rhosymedre, Aberystwyth, Rheidol and one of the nation's favourites - Pantyfedwen. There will be a performance of the works of D Christmas Evans by the Eisteddfod Choir including the anthem 'Dyn a aned o wraig'. The winner of the Eisteddfod's hymn writing competition will also be announced.

There will be cameras in the Literary Pavilion too, with a highlights programme every night on S4C. Magazine programme **Heno** will be broadcasting live from the Maes on Monday, Tuesday and Thursday. Every day, **Newyddion S4C** (News) will be bringing all the latest news stories from the Maes.

Maggi Noggi will be wandering the Maes. Follow her cheeky antics on S4C's social media platforms and in a special programme the following week.

To close a full week there will be two special highlights programmes including **Uchafbwyntiau'r Eisteddfod 2022** and **Uchafbwyntiau Y Babell Lên** (Literary Pavilion) on Sunday, 7 August.

A number of other Eisteddfod concerts and events from venues including the Pavilion, y Tŷ Gwerin and the Eisteddfod stage will be filmed and broadcast at a later date including a special Maes B programme and Mas ar y Maes.

For the thousands who are visiting the Maes this year, the S4C pavilion will be a hive of activity with lots of information available about the channel's latest programmes.

There will be two daily **Cyw** shows with Huw, Elin, Griff, Cati and Ben Dant and two daily **Stwnsh** shows with Owain, Leah, Jack and Jed. On Sunday, there will be a **Sgwrs Dan y Lloer** (Chat Under the Stars) event in which Elin Fflur chats to Rhian Lois while on Monday there will be a **Cefn Gwlad: Cofio Dai Jones** session with Ifan Jones Evans and Mari Lovgreen.

On Tuesday there will be an opportunity to chat with the cast of **Pobol y Cwm** and on Wednesday a preview of the Welsh horror film **Gwledd** in Sinemaes plus a session with cast and crew. On Thursday there will be a chance to take a peek at S4C's new autumn drama **Dal y Mellt** and a session in which Priya Hall interviews Maggi Noggi.

Football will be the name of the game on Friday with a **Sgorio** event where Dylan Ebenezer interviews Ian Gwyn Hughes from the Football Association of Wales and commentator Gwennan Harries about the Wales football team's trip to the FIFA World Cup in Qatar.

S4C's Eisteddfod Commissioner Elen Rhys said: "It is such a special thing to be at the heart of the festival this year. There will be something for everyone across all S4C's platforms. It is an honour to be able to celebrate with the National Eisteddfod, the hardworking Ceredigion team and everybody that is involved with the Eisteddfod and enjoy the variety the festival offers in Wales and beyond."

**Eisteddfod Ceredigion 2022**
**Eisteddfod Preview – Thursday 28 July, 8.00**

**Opening Concert: Lloergan – Friday 29 July, 8.00**
**Morning Service – Sunday 31 July, 11.00**
**Y Gymanfa Ganu (Congregational Singing) - Sunday 31 July, 7.00**
**Heno from the Eisteddfod – Monday, Tuesday and Thursday August 1,2 and 4, 7.00**
**Live coverage from the Eisteddfod begins every morning and continues throughout the day with full coverage of the day's main ceremonies. Every night Mwy o'r Maes sums up and discusses the highlights of the day and a programme covering highlights of the Literary Pavilion – Saturday 30 July – Saturday 6 August.**
**Sedd yn y Pafiliwn (A Seat in the Pavilion) – Live and continuous broadcast from the stage available on S4C Clic and BBC iPlayer - Saturday 30 July – Saturday 6 August.**
**Eisteddfod 2022 Highlights – Sunday 7 August, 7.30**
**Literary Pavilion Highlights - Sunday 7 August, 9.00**
**English subtitles available**
**On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms**
**A BBC Cymru Wales production for S4C**